# Asesiad Strwythuredig 2023—Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 4001A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd 9

Systemau sicrwydd corfforaethol 18

Dull cynllunio corfforaethol 24

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 27

Atodiadau

Atodiad 1—dulliau archwilio 31

Atodiad 2—y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol 33

Atodiad 3—ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio 37

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2023 yr Archwilydd Cyffredinol yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hynny, mae cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Felly, yn fwy nag erioed, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd, a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yr oedd prif bwyslais y gwaith, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar dryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y Bwrdd, systemau sicrwydd corfforaethol, dull cynllunio corfforaethol, a dull rheoli ariannol corfforaethol. Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd dros sawl blwyddyn. Mae hefyd wedi ei lywio gan:

- Orchmynion Rheolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Model
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arferion da perthnasol eraill

Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael ag argymhellion sydd angen sylw a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

# Canfyddiadau allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod gan **yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i sicrhau llywodraethu da, a bod dulliau cadarn ar waith i ddatblygu a monitro ei chynlluniau ac i reoli ei chyllid. Mae cyfleoedd i wella amseroldeb cyfarfodydd pwyllgor ac i gryfhau ymhellach rai o systemau sicrwydd corfforaethol yr Ymddiriedolaeth**.

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

7 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dda, ac yn cynnal pwyslais da ar dryloywder cyhoeddus, ar wrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaeth, ac ar welliannau parhaus. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol ac mae newidiadau yn yr aelodaeth wedi eu rheoli'n dda, er bod bwlch wedi cyflwyno her. Yn gyffredinol, mae ansawdd papurau o safon dda ac mae camau priodol yn cael eu cymryd i wella hyn ymhellach. Mae cyfleoedd i ystyried amseru cyfarfodydd pwyllgor**.

8 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus. Bu gwelliant o ran gwneud papurau pwyllgor ar gael i'r cyhoedd o flaen y cyfarfodydd, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei drin fel cyfarfod preifat. Mae trefniadau da i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau, ac mae gwaith sylweddol ar y gweill i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu diweddaru ac yn hygyrch.

9 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i weithio'n dda, ac arsylwyd gwaith craffu, cefnogaeth a her ar lefelau da. Mae llifoedd gwybodaeth clir o hyd ar draws y pwyllgorau ac i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae lle i'r Ymddiriedolaeth ystyried amseru ei chyfarfodydd pwyllgor er mwyn sicrhau goruchwyliaeth mwy rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ar draws busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Yn gyffredinol, mae'r papurau o safon dda a gwneir defnydd da o offer rhyngweithiol. Ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen gwelliannau gyda phapurau'r pwyllgor ac mae'n cymryd camau priodol, ac mae cynllun peilot ar y gweill ar hyn o bryd.

10 Mae'r Bwrdd wedi cryfhau ei ymrwymiad i wrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaeth, gyda chynlluniau i wella trefniadau ymhellach, ac mae'n ystyried ailgyflwyno teithiau cerdded y Bwrdd ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol, gyda phwyslais cryf ar fod yn Fwrdd sy'n cyflawni'n dda. Pan fo newidiadau wedi digwydd i aelodaeth y Bwrdd, fe'u rheolwyd yn dda. Fodd bynnag, bu swydd Cyfarwyddwr Anweithredol gwas ers sawl mis sydd wedi rhoi pwysau ar y gallu i gynnal cworwm.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

11 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a llywodraethu ansawdd. Mae dull yr Ymddiriedolaeth o nodi risgiau strategol yn gwella, a chrynhoir**

**Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd mewn un ddogfen erbyn hyn. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith ar drefniadau rheoli risgiau strategol a chorfforaethol, ac olrhain argymhellion**.

12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei dull rheoli risgiau ac adnewyddodd ei risgiau strategol yn gynharach yn y flwyddyn. Crynhoir Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd mewn un ddogfen bellach sy'n nodi trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn glir, ac mae Cofrestr Risgiau Strategol adnewyddedig wedi ei datblygu. Mae'r risgiau corfforaethol yn cael eu diweddaru, ond nid yw'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi ei hystyried gan y Bwrdd na'i bwyllgorau ers dechrau'r flwyddyn ariannol. Nid yw amlder gwaith goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol ar yr un lefel â chyrff eraill y GIG, ac mae angen gwella ffynonellau sicrwydd ar gyfer y risgiau strategol. Mae capasiti yn y tîm risgiau yn cyflwyno her o ran gweithredu Cynllun Datblygu Rheoli Risgiau yr Ymddiriedolaeth.

13 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â goruchwyliaeth gorfforaethol dda a goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd a gwaith craffu ar berfformiad da, ac mae trefniadau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygiadau i'w Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad a'i hadroddiadau ategol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i fod â threfniadau llywodraethu ansawdd priodol ar waith ac mae wedi cymryd dull cadarn o sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd. Mae angen gwella trefniadau corfforaethol ar gyfer olrhain argymhellion yr Ymddiriedolaeth, er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth rheolaidd a chynhwysfawr o'r cynnydd a wneir.

## Dull cynllunio corfforaethol

14 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o ddatblygu a monitro'r broses o gyflawni ei strategaethau a'i chynlluniau, a bod strategaeth hirdymor newydd ar waith a dull cryfach ddangos yr effaith**.

15 Cymeradwyodd y Bwrdd ei strategaeth 12 mlynedd newydd ym mis Mawrth 2023, yn dilyn gweithdai'r Bwrdd ac ymgysylltiad mewnol ac allanol sylweddol. Mae'r strategaeth yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac felly'r blaenoriaethau strategol yw amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth hefyd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu Strategaeth Digidol a Data 12 mlynedd, Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso tair blynedd, ac mae wedi adnewyddu ei Strategaeth Iechyd Rhyngwladol 10 mlynedd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn o hyd ar gyfer datblygu a llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy.

16 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei phwyslais ar effaith drwy gynnwys canlyniadau clir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig a'r modd y bydd y rhain yn cael eu mesur. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau da ar gyfer monitro a chraffu ar y broses o gyflawni ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, drwy ei threfniadau adrodd perfformiad i'r Bwrdd. Cynhelir gwaith monitro strategaethau drwy bwyllgorau.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

17 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol yn gyffredinol**.

18 Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol o fantoli ei chyfrifol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23, gyda refeniw bach gwarged cyfalaf o £85,000 a £35,000, yn y drefn honno. Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar gyfer cyfnod treigl tair blynedd 2020–23 hefyd, gyda gwarged cronnus o £260,000. Mae ar y trywydd iawn i'w bodloni nhw eto yn 2023–24.

19 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o gynllunio ariannol, ac mae cynllun ariannol clir a chytbwys ar gyfer 2023–2026 sy'n tanategu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r cynllun yn nodi ei ddull cyflawni arbedion yn glir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â rheolaethau a rheolaeth ariannol dda ar waith, a chynhelir goruchwyliaeth briodol drwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i fod â threfniadau da ar gyfer monitro ac adrodd ar ei sefyllfa ariannol.

# Argymhellion

20 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2023**

| **Argymhellion** |
|---|
| **Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**<br>A1 Yn unol â holl gyrff eraill y GIG yng Nghymru, dylai'r Ymddiriedolaeth wneud ei Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn gyfarfod cyhoeddus er mwyn gwella tryloywder, gan neilltuo materion o natur sensitif yn unig ar gyfer cyfarfod preifat. Wrth wneud hynny, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod papurau'r pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar ei gwefan saith niwrnod cyn y cyfarfodydd. |
| **Trefnu cyfarfodydd pwyllgor**<br>A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth wella trefniadau ei holl gyfarfodydd pwyllgor er mwyn sicrhau llif gwybodaeth mwy prydlon i'r Bwrdd, ac o'r Bwrdd, er mwyn lleihau'r angen am sicrwydd llafar i'r Bwrdd, a darparu rhagor o gysondeb pan fo pwyllgorau'n derbyn adroddiadau chwarterol a chwemisol. Hefyd, dylid ystyried cyfarfodydd ychwanegol byr i gwmpasu eitemau penodol ar yr agenda. |

**Argymhellion**

**Datblygiad Cyfarwyddwyr Anweithredol**

A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth ddod â'r holl Gyfarwyddwyr Anweithredol ynghyd o yn gyfnodol er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

**Adrodd risgiau corfforaethol**

A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael y Gofrestr Risgiau Corfforaethol diweddaredig cyn gynted â phosibl, a bod cynlluniau gwaith yn sicrhau yr ystyrir y gofrestr yn fwy rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

**Olrhain gwaith archwilio ac adolygu**

A5 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei phwyllgorau'n goruchwylio'r cynnydd yn rheolaidd o'i gymharu â'r argymhellion archwilio mewnol ac allanol sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgorau, a bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn goruchwylio'r holl argymhellion yn rheolaidd.

A6 Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cofnod canolog o argymhellion sy'n deillio o adolygiadau eraill, fel y gellir goruchwylio'r cynnydd corfforaethol.

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

21 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

22 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dda, ac yn cynnal pwyslais da ar dryloywder cyhoeddus, ar wrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaeth, ac ar welliannau parhaus. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol ac mae newidiadau yn yr aelodaeth wedi eu rheoli'n dda, er bod bwlch wedi cyflwyno her. Yn gyffredinol, mae ansawdd papurau o safon dda ac mae camau priodol yn cael eu cymryd i wella hyn ymhellach. Mae cyfleoedd i ystyried amseru ei gyfarfodydd pwyllgor**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

23 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn yn y Bwrdd a'r pwyllgor:

- cyfarfodydd sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau sydd ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd;
- busnes a phenderfyniadau a wneir yn dryloyw;
- cofnodion cyfarfodydd sydd ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

24 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i dryloywder cyhoeddus. Fodd bynnag, yn wahanol i gyrff eraill y GIG, ni chynhelir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn gyhoeddus**.

25 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gael eu ffrydio'n fyw, ac mae recordiadau ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn fuan ar ôl y cyfarfod. Cyhoeddir dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd ymhell ymlaen llaw ac mae cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cnawd pe byddent yn dymuno gwneud hynny. Hefyd, mae papurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd ar gael i'r cyhoedd saith niwrnod ymlaen llaw.

26 Cynhelir busnes y Bwrdd yn unol ag Ymddygiad Safonol yr Ymddiriedolaeth sy'n nodi'r gwerthoedd a'r diwylliannau a ddisgwylir gan aelodau'r Bwrdd. Mae trefniadau cyfieithu ar waith i alluogi aelodau'r Bwrdd a'r rhai sy'n bresennol i gyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r defnydd o Teams yn golygu nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu darparu cyfieithu ar y pryd i'r rhai sy'n gwylio'r cyfarfod ar-lein ar hyn o bryd. Mae trafodaethau yn cael eu cyfieithu at ddibenion y cofnodion.

27 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn agored ac yn onest am yr heriau y mae'n eu hwynebu. Yn unol â'i Brotocol ei hun ar gyfer Materion a Drafodir yn Breifat, cedwir eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd Bwrdd preifat i'r isafswm lleiaf posibl ac fe'u cedwir ar gyfer eitemau sensitif yn unig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu hyn yn rhagweithiol. Cyflwynir crynodeb o'r materion a drafodir yn breifat

drwy Ddiweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd cyhoeddus (gweler **Atodiad A6b 2022**). Lleiheir Gweithredoedd cadeiryddion gymaint â phosib hefyd ac fe'u nodir yn ysgrifenedig yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael.

28 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella'r graddau y mae papurau pwyllgor ar gael cyn y cyfarfodydd, ac erbyn hyn, mae'r holl bapurau ar gael i'r cyhoedd saith niwrnod ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei drin fel cyfarfod preifat ar gyfer ei holl fusnes oherwydd canllawiau hanesyddol Llywodraeth Cymru[1]. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi papurau y bernir eu bod yn addas ar gyfer mynediad i'r cyhoedd yn dilyn y cyfarfod, nid yw'r trefniad i gynnal cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn breifat yn cyd-fynd â'r arferion ym mhob corff GIG arall yng Nghymru **(Argymhelliad 1)**. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gwella'r graddau y mae cofnodion y Bwrdd a'r pwyllgorau nad ydynt wedi eu cadarnhau ar gael, ac maent bellach ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, roedd rhai cofnodion nad oeddent eu cadarnhau nad oedd ar gael am sawl mis ar ôl cyfarfodydd[2].

## Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

29 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn, yn ffurfiol, yn gyfoes ac ar gael i'r cyhoedd:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ar waith i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb.

30 Canfuom fod **trefniadau da i gefnogi'r broses o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol**.

31 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith sy'n gyfredol ac yn hygyrch, ac mae tystiolaeth o

[1] Cyfeiria canllawiau 2009 at ofyniad i gynnal Pwyllgorau Archwilio 'yn breifat'. Mae'r canllawiau hyn wedi eu goddiweddyd drwy gyflwyno NHS Wales Audit Committee Handbook [Saesneg yn unig] yn 2011 (diweddarwyd ym mis Mehefin 2012) a model Rheolau Sefydlog sy'n nodi: 'Mae ymrwymiad y Bwrdd i fod yn agored ac yn dryloyw wrth gynnal ei holl fusnes yn ymestyn yn gyfartal i'r gwaith a gynhelir ar ei ran gan bwyllgorau. Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, bydd y Bwrdd yn ei gwneud yn ofynnol i'w bwyllgorau gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus oni bai bod rhesymau penodol a dilys dros beidio â gwneud hynny.'

[2] Yn seiliedig ar archwiliad ar hap o wefan yr Ymddiriedolaeth ar 7 Tachwedd 2023, nid oedd cofnodion nad oeddent wedi eu cadarnhau cyfarfodydd mis Medi y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesedd, a'r Bwrdd, na chyfarfod mis Gorffennaf y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol ar gael.

gydymffurfiaeth. Cymeradwyodd y Bwrdd y rhain a'r Cynllun Dirprwyo ym mis Medi 2023, yn dilyn adolygiad gan y Tîm Gweithredol Busnes a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Diweddarwyd y dogfennau hyn i adlewyrchu newidiadau i gyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth yn ogystal â newidiadau a wnaed yn genedlaethol i'r model Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, ee er mwyn adlewyrchu'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd newydd. Mae'r fersiynau diweddaraf o'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth (gweler **Atodiad 2 A6a 2022**). Mae adroddiadau mewnol, gwaith archwilio mewnol[3], a'n harchwiliad o gyfrifon dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos cydymffurfiaeth â fframweithiau rheoli allweddol fel mater o drefn.

32 Mae trefniadau i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wedi eu cryfhau. Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol bob chwe mis bellach ar y trefniadau ar gyfer rheoli datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch, cydymffurfiaeth â Chylchlythyrau Iechyd Cymru, a diweddaru polisïau. Darparwyd y diweddariad diweddaraf ym mis Medi 2023. Ystyrir datganiadau o fuddiant ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor, ac mae'r Cofrestrau Datgan Buddiant, Rhoddion a Lletygarwch yn gyfredol ac ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth (gweler **Atodiad 2 A6a 2022**).

33 Mae gwaith sylweddol ar y gweill i sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu diweddaru ac ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Darperir diweddariadau chwemisol ar gyfer pob pwyllgor, sy'n nodi statws adolygu pob polisi a neilltuir i'r pwyllgor hwnnw. Mae'r holl bolisïau sydd wedi dyddio yn cael eu hasesu o ran risg ac mae cynlluniau clir ar waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddaru erbyn mis Mawrth 2024 pan fo hynny'n bosibl. Ar sail y diweddariadau diweddaraf i bwyllgorau[4], allan o 68 o bolisïau, roedd 34 ohonynt wedi dyddio. Roedd camau ar waith i ymdrin â 19 o bolisïau. Polisïau Cymru gyfan oedd y 15 polisi a oedd yn weddill yr oeddent yn ddibynnol ar ddiweddariadau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod yr holl bolisïau Cymru gyfan sydd wedi dyddio yn parhau i fod yn berthnasol. Canfu ein hadolygiad o wefan yr Ymddiriedolaeth fod yr holl fersiynau diweddaraf o bolisïau'r Ymddiriedolaeth yn hygyrch (gweler **Atodiad 2 A6a 2022**).

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

[3] Mae adolygiadau ac adroddiadau'n cynnwys adolygiad Archwilio Mewnol o'r rheolaeth ariannol, hunanasesiadau y Bwrdd a'r pwyllgorau, ac adroddiadau arferol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar gaffael, colledion a thaliadau arbennig, atal twyll a chofrestrau buddiant, rhoddion a lletygarwch.

[4] Diweddariadau chwemisol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ym mis Hydref, y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol ym mis Tachwedd a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesedd ym mis Rhagfyr 2023.

34 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig ac sy'n gweithredu'n dda sydd ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n cwmpasu pob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau sy'n cael eu cadeirio'n dda, sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n cadw at ymddygiad y cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da o ran craffu, cefnogaeth a her; a
- pwyllgorau sy'n cael sicrwydd gofynnol ac yn gweithredu arno, ac sy'n rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd.

35 Canfuom fod **y Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithio'n dda ar y cyfan er bod cyfle i'r Ymddiriedolaeth ystyried amseru ei chyfarfodydd. Mae bwlch tymor byr yn aelodaeth y Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi rhoi pwysau ar y gallu i gynnal cworwm mewn cyfarfodydd pwyllgorau**.

36 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithio'n dda. Mae'r Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo bob blwyddyn. Eleni, cefnogwyd y broses gymeradwyo gan adolygu'r cylchoedd gwaith ar draws pob pwyllgor, ochr yn ochr â'r strategaeth hirdymor adnewyddedig. Gwnaed sawl newid i gylch gorchwyl y pwyllgorau, gan gynnwys egluro'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith llywodraethu gwybodaeth (gweler **Atodiad 2 A3 2022**). Fel y sonnir ym **mharagraff 28**, mae cyfle i'r Ymddiriedolaeth wneud ei Phwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn gyfarfod cyhoeddus, gyda sesiwn breifat i drafod materion sensitif megis achosion gwrth-dwyll **(Argymhelliad 1)**.

37 Mae cynlluniau gwaith ar waith ac maent yn adlewyrchu ehangder busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Ers ein hadroddiad asesu strwythuredig blaenorol, mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn ei gwneud yn glir mai dangosol yw cynlluniau gwaith a byddant yn cael eu cadarnhau yn ystod y broses o osod agenda (gweler **Atodiad 2 A6b 2022**).

38 Mae cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cadeirio'n dda, a gwnaethom arsylwi lefelau da o waith craffu, cefnogaeth a her. Yn ystod 2023, bu sawl newid ymhlith cadeiryddion pwyllgorau. Mae'r newidiadau hyn wedi eu rheoli'n dda, ac adroddodd yr holl gadeiryddion pwyllgor eu bod yn cael cefnogaeth dda gan arweinydd/arweinwyr gweithredol eu pwyllgorau perthnasol. Fodd bynnag, mae swydd Cyfarwyddwr Anweithredol wag wedi golygu bod angen i Gadeirydd Bwrdd fod yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol. Er nad yw'n ddelfrydol, mae'r trefniad hwn wedi bod yn ateb ymarferol o ystyried cyfyngiadau amser ar Gyfarwyddwyr Anweithredol eraill. Er ei bod yn cario swydd Cyfarwyddwr Anweithredol wag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi rheoli cworwm ei chyfarfodydd. Hefyd, mae angen i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill weithredu fel

staff llanw ar gyfer pwyllgorau yn fwy cyffredinol er mwyn sicrhau cworwm. Datryswyd y sefyllfa hon ym mis Rhagfyr 2023 (gweler **paragraff 55**).

39 Mae llifoedd gwybodaeth clir o hyd ar draws y pwyllgorau ac i'r Bwrdd. Mae cadeiryddion pwyllgorau bellach yn cyfarfod fel grŵp er mwyn rhannu meysydd sy'n peri pryder, ac mae Adroddiad y Pwyllgor Cyfansawdd i'r Bwrdd yn rhoi trosolwg da o fusnes allweddol y pwyllgor a materion i'w huwchgyfeirio. Fodd bynnag, mae amseru'r pwyllgorau yn broblemus, gyda:

- rhai bylchau amser sylweddol rhwng cyfarfodydd, ee cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol mis Medi a mis Ionawr, a chyfarfodydd Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol mis Gorffennaf a mis Tachwedd;
- rhai bylchau amser tynn rhwng cyfarfodydd y pwyllgorau a'r Bwrdd, sy'n arwain at dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar a dyblygiadau mewn sicrwydd; ac
- amrywiaeth mewn amseroldeb o ran pryd y derbynnir adroddiadau chwarterol a chwemisol gan bwyllgorau, gyda rhai bylchau sylweddol mewn amser ar ôl i'r chwarter ddod i ben, er enghraifft, yr Adroddiad Gwrth-dwyll Chwarter Dau[5] a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr, ac Adroddiad Gweithio i Wella Chwarter Dau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ym mis Rhagfyr.

40 Mae lle i'r Ymddiriedolaeth ystyried amseru ei chyfarfodydd pwyllgor ochr yn ochr â chyfarfodydd y Bwrdd, er mwyn goresgyn y materion a nodir uchod (**Argymhelliad 2**). Pan fo gofynion statudol i Fwrdd a/neu bwyllgorau gwrdd ar adegau penodol o'r flwyddyn, ee er mwyn cymeradwyo'r cyfrifon, arfer cyffredin ar draws cyrff eraill y GIG yw cynnal cyfarfodydd ychwanegol byr yn benodol er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion hyn, yn hytrach na threfnu cyfarfodydd arferol eu pwyllgorau o amgylch y dyddiadau hyn.

## Ansawdd ac amseroldeb papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau

41 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael gwybodaeth amserol o ansawdd uchel sy'n cefnogi gwaith craffu effeithiol, sicrwydd, a'r broses o wneud penderfyniadau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol o wybodaeth sydd ei hangen/yn briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a sicrwydd.

42 Canfuom fod **y papurau o safon dda yn gyffredinol gyda defnydd da o offer rhyngweithiol, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen gwelliannau ac mae'n cymryd camau priodol**.

[5] Gorffennaf–Medi.

43 Mae'r Bwrdd yn parhau i dderbyn gwybodaeth amserol a chlir sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol, gwaith craffu a her. Fodd bynnag, mae rhai papurau pwyllgor yn hir ac mae angen canolbwyntio'n fwy ar faterion allweddol. Defnyddir cyflwyniadau yn aml, sy'n glir ac yn rhoi crynodeb da o'r eitem, ond nid ydynt yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan y pwyllgor bob amser. Gwnaethom adrodd y llynedd nad yw rhai papurau Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesedd, a Phwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol, yn cynnwys taflenni clawr, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir (gweler **Atodiad 2 A6c 2022**).

44 Mae gwaith peilot ar y gweill gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i wella ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion aelodau'r pwyllgor. Mae'r cynllun peilot yn canolbwyntio ar fod yn glir ynghylch yr wybodaeth a'r amser sydd eu hangen, a'r fformat mwyaf priodol ar y cam gosod agenda gyda chadeirydd y pwyllgor. Nodir hyn mewn crynodeb ar gyfer yr arweinydd gweithredol ac fe'i defnyddir i asesu'r papurau wrth iddynt ddod ar gael cyn y cyfarfod. Cynhelir adolygiad ar ôl y cyfarfod i nodi unrhyw bwyntiau dysgu. Disgwylir i'r cynllun peilot ddod i ben yn gynnar yn 2024 ac, os bydd yn llwyddiannus, y bwriad yw cyflwyno'r dull gweithredu i'r pwyllgorau eraill yn fuan ar ôl hynny.

45 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd ar y camau cynnar o gryfhau papurau clawr, er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi sicrwydd i'r aelodau bod yr holl ofynion llywodraethu perthnasol wedi eu hystyried. Cyn gwneud hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried treialu hyb llywodraethu yn gynnar yn 2024. Pwynt canolog lle bydd awduron papurau yn gofyn am gyngor fydd hwn, er mwyn sicrhau pan eu bod yn drafftio papurau, eu bod yn ystyried yr holl agweddau llywodraethu perthnasol o'r cychwyn, megis cydymffurfio â deddfwriaeth ac anghenion llywodraethu gwybodaeth. Bydd hyn yn galluogi trafodaethau y Bwrdd a'r pwyllgorau i ganolbwyntio'n fwy ar y materion allweddol a'r camau nesaf, yn hytrach nag a gydymffurfiwyd â phrosesau llywodraethu.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud defnydd da o offer rhyngweithiol, ac mae wedi gwella ei Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad[6] a datblygu ei Dangosfwrdd Trosolwg Iechyd Cyhoeddus[7] newydd yn ystod y flwyddyn. Mae Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad yr Ymddiriedolaeth hefyd yn nodi'n glir iawn gipolwg ar y perfformiad ar draws holl fusnes yr Ymddiriedolaeth gan ddefnyddio ffeithluniau. Hefyd, rhennir gwybodaeth â'r Bwrdd rhwng cyfarfodydd drwy sesiynau cyfarwyddo, a nodir crynodeb o'r wybodaeth a rennir yn yr Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Bwrdd gan y Cadeirydd. Rhennir rhai adroddiadau ag aelodau'r Bwrdd rhwng cyfarfodydd hefyd, er nad yw'r rhain yn y parth cyhoeddus bob

[6] Offeryn Power BI mewnol a ddefnyddir i roi sicrwydd ar draws amrywiaeth o fesurau a dangosyddion perfformiad sy'n cwmpasu ehangder busnes yr Ymddiriedolaeth yw'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.

[7] Offeryn Power BI mewnol sy'n nodi amrywiaeth o ddangosyddion iechyd cyhoeddus gan gynnwys clefydau trosglwyddadwy, ymddygiad iach, a phenderfynyddion ehangach iechyd yw'r Dangosfwrdd Trosolwg Iechyd Cyhoeddus.

amser. Fel yr adroddwyd y llynedd, mae rhai o'r adroddiadau, yn benodol sefyllfa ariannol Mis 12, yn parhau i ddarparu haen o sicrwydd a ddylai fod yn y parth cyhoeddus (gweler **Atodiad 2 A6d 2022**).

## Ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff

47 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hybu ac yn dangos ymrwymiad i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i wrando ar gleifion/defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff.

48 Canfuom fod **y Bwrdd wedi cryfhau ei ymrwymiad i wrando ar y staff a defnyddwyr y gwasanaeth, a bod ganddo gynlluniau i wella trefniadau ymhellach**.

49 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi cyflwyno rhaglen presenoldeb treigl gan ei rwydweithiau staff[8] er mwyn galluogi aelodau i glywed profiad uniongyrchol y rhai sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth. Mae aelodau'r Bwrdd yn parhau i fanteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â'r staff yn y pencadlys o amgylch ymylon cyfarfodydd Bwrdd a'r pwyllgorau. Hefyd, yn 2023 cynhaliodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella un o'i gyfarfodydd y tu allan i bencadlys yr Ymddiriedolaeth, gan alluogi'r cyfle i aelodau'r pwyllgor ymgysylltu â'r staff mewn lleoliad arall. Roedd cynlluniau ar waith i gynnal y Bwrdd yng ngogledd Cymru ym mis Medi, ond o ystyried y pwysau ariannol presennol yn GIG Cymru, gohiriwyd cylchdro cyfarfodydd y Bwrdd ledled Cymru tan 2024–25.

50 Mae cynrychiolwyr staff yn parhau i fynd i holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Rydym yn parhau i arsylwi cyfranogiad gweithredol mewn cyfarfodydd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn cymryd safbwyntiau'r staff o ddifrif ac yn gweithredu ar bryderon. Ystyrir dulliau ar gyfer ymgysylltu â'r staff fel mater o drefn yn y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol a chyflwynir canfyddiadau y gweithgareddau ymgysylltu. Gwahoddwyd yr holl Gyfarwyddwyr Anweithredol i gynhadledd yr holl staff ym mis Medi, er mai dim ond y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd oedd yn gallu mynd. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd ynghylch sut y gellir ailgyflwyno teithiau cerdded y Bwrdd, gan gydnabod y gwahanol wasanaethau sydd gan yr Ymddiriedolaeth a'r gwasgariad, o ran gwasanaethau ac aelodau'r Bwrdd yn ddaearyddol. Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol ar drafodaethau'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn rheolaidd, ac ym mis Tachwedd 2023, ystyriodd y pwyllgor fframwaith newydd 'Codi Llais heb Ofn' hefyd a chymeradwyodd ei gynllun gweithredu.

[8] Mae gan yr Ymddiriedolaeth bum rhwydwaith—Reach (rhwydwaith amrywiaeth), Enfys (rhwydwaith LGBTQ+), We Care (rhwydwaith gofalwyr sy'n gweithio), Porffor (rhwydwaith anableddau) a rhwydwaith Menywod.

51 Mae'r Bwrdd wedi sefydlu sawl dull o wrando ar ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r boblogaeth ehangach. Sefydlwyd Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2023, sy'n dod â 2,500 o drigolion o bob cwr o Gymru ynghyd bob mis i rannu eu safbwyntiau ar amrywiaeth o bynciau. Mae canfyddiadau o adolygiadau misol y panel yn llywio busnes perthnasol y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r Bwrdd yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'i Raglen Llysgenhadon Ifanc gyda chyfleoedd i'r Llysgenhadon Ifanc fynd i gyfarfodydd y Bwrdd a sesiynau datblygu yn gyfnodol.

52 Cynhwysir canfyddiadau o ddulliau ymgysylltu eraill[9] ym musnes y pwyllgorau, er enghraifft, mae'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesedd yn ystyried canlyniadau arolwg effaith o ddata, dadansoddiad a chynhyrchion ymchwil yr Ymddiriedolaeth yn flynyddol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ystyried adroddiad chwarterol Gweithio i Wella fel mater o drefn sy'n cynnwys cwynion a phryderon. Cynhwysir nifer o'r agweddau hyn yn y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad, sydd hefyd yn cael ei ystyried fel mater o drefn yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Bwrdd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried sylwadau defnyddwyr y gwasanaeth yn systematig, gan gynnwys cyflwyno platfform Civica[10] . Fodd bynnag, nid yw'r nifer sy'n manteisio ar Civica ar draws y gyfarwyddiaethau wedi cyrraedd y lefel yr hoffai'r Ymddiriedolaeth hyd yma. Erys cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth ystyried sylwadau yn fwy rheolaidd ar sut mae partneriaid eraill, yn fwyaf nodedig awdurdodau lleol a GIG Cymru ehangach, yn canfod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn gan yr Ymddiriedolaeth (gweler **Atodiad 2, A4 2022**).

[9] Grwpiau pwyslais a gwerthusiadau.

[10] Ym mis Tachwedd 2022, cyflwynodd GIG Cymru blatfform Civica Experience Wales i gipio sylwadau defnyddwyr y gwasanaeth yn rhan o raglen System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru.

## Cydlyniant y Bwrdd a'i ymrwymiad i welliant parhaus

53 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda fframwaith o uwch-arweinwyr sydd â'r capasiti, y sgiliau a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus; a
- rhaglen datblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd perthnasol sydd ar waith.

54 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i fod yn gydlynol, gyda phwyslais cryf ar ddatblygu a gwella. Pan fo newidiadau wedi digwydd i'r aelodaeth, fe'u rheolwyd yn dda**.

55 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd cryf o hyd, gyda phortffolio amrywiol o sgiliau a phrofiadau ar draws gwahanol sectorau. Rheolwyd secondiad allanol sydyn Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol[11] ym mis Chwefror 2023 yn dda. Fodd bynnag, am lawer o'r flwyddyn, bu gan y Bwrdd swydd Cyfarwyddwr Anweithredol wag oherwydd oediadau gyda'r broses recriwtio a achoswyd i raddau helaeth gan yr Uned Penodiadau Cyhoeddus[12]. Mae angen i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill weithredu fel staff llanw ar gyfer pwyllgorau nad ydynt yn aelod ohonynt er mwyn sicrhau cworwm. Dechreuodd Cyfarwyddwr Anweithredol newydd ym mis Rhagfyr 2023. Mae newidiadau yn y tîm Gweithredol wedi eu rheoli'n dda hefyd, gyda thri phenodiad newydd yn ystod y flwyddyn i swyddi Cyfarwyddwr Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (trefniant interim), Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant, ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

56 Mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio'n gryf ar fod yn Fwrdd sy'n cyflawni'n dda yn ystod y 12 mis diwethaf, gan wneud defnydd cadarnhaol o'i raglen ddatblygu i gryfhau ei feysydd i'w gwella. Gan ddefnyddio Model 7 McKinsey[13] i nodi ei gryfderau a'i wendidau, mae'r rhaglen ddatblygu wedi cynnwys pwyslais ar ddiwylliant sefydliadol, partneriaethau strategol a meysydd o effeithiolrwydd y Bwrdd sy'n fwy ymarferol, gan gynnwys datblygu ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn parhau i ddangos ei ymrwymiad i welliant parhaus drwy adolygu

[11] Ym mis Chwefror 2023, cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ei secondio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar fyr rybudd. Disgwylid i'r Is-gadeirydd adael ym mis Chwefror 2023, ond cytunodd i aros am 12 mis arall er mwyn darparu sefydlogrwydd.

[12] Un o swyddogaethau Llywodraeth Cymru, sy'n hwyluso'r broses o benodi ymgeiswyr i swyddogaethau proffil uchel ar draws y sector cyhoeddus yw'r Uned Penodiadau Cyhoeddus.

[13] Offeryn a ddefnyddir i ddadansoddi dyluniad sefydliad sy'n canolbwyntio ar strwythur, strategaeth, systemau, sgiliau, arddull, staff, a gwerthoedd a rennir yw Model 7 McKinsey.

effeithiolrwydd pwyllgorau yn flynyddol a gweithredu'r gwelliannau a nodir. Mae cadeiryddion pwyllgorau hefyd yn parhau i ofyn am sylwadau fel mater o drefn ym mhob cyfarfod, ac mae'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn adlewyrchu'n rheolaidd sut mae'r Bwrdd yn gweithio ar ôl pob cyfarfod.

57 Cefnogir Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd yn dda â threfniadau mentora a rhaglen dysgu a datblygu sydd wedi ei haddasu i'w hanghenion penodol. Fodd bynnag, dywedodd sawl Cyfarwyddwr Anweithredol y gellid gwella'r rhaglen cynefino lleol a chenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae Uned Fusnes y Bwrdd yn datblygu ei rhaglen cynefino lleol i gefnogi'r Cyfarwyddwr Anweithredol newydd a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2023. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn gweithio gyda chymheiriaid ar Rwydwaith Ysgrifenyddion y Bwrdd Cymru gyfan er mwyn cefnogi dull cynefino cyson ledled Cymru a dylanwadu ar yr hyfforddiant cynefino cenedlaethol a gynigir i Gyfarwyddwyr Anweithredol ac Aelodau Annibynnol newydd. Mae'r Tîm Gweithredol yn cyfarfod yn gyfnodol i ddatblygu fel grŵp, fodd bynnag, nid oes dull ar waith ar hyn o bryd i bob Cyfarwyddwr Anweithredol ddod at ei gilydd i rannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd **(Argymhelliad 3).**

# Systemau sicrwydd corfforaethol

58 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

59 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig â pherfformiad, a llywodraethu ansawdd. Mae dull yr Ymddiriedolaeth o nodi risgiau strategol yn gwella hefyd, ac mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei grynhoi'n un ddogfen bellach. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith ar drefniadau rheoli risgiau strategol a chorfforaethol, ac olrhain argymhellion**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol

60 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol a chorfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ac ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn mynd ati adolygu, diweddaru, defnyddio a derbyn cyfrifoldeb am Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol, gan fynd i'r afael â nhw;
- fframwaith rheoli risgiau priodol a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan gyfrifoldebau, swyddogaethau, gweithdrefnau a pholisïau clir;

- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar effeithiolrwydd y system rheoli risgiau;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar risgiau corfforaethol.

61 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei dull o reoli risgiau a bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei gydgrynhoi'n un ddogfen bellach. Ond mae angen gwella goruchwyliaeth risgiau strategol a chorfforaethol ac mae'r capasiti yn y tîm risg yn cyflwyno her**.

62 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran crynhoi ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yn un ddogfen, gan gytuno ar y drafft yng nghyfarfod Tachwedd 2023 y Bwrdd. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn gynhwysfawr, y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ei gynnal fel dogfen fyw, a adolygir gan y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn (gweler **Atodiad 2 A2c a d**). Fodd bynnag, dim ond trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth y mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ei ddisgrifio ei ffurf bresennol.

63 Cofrestr Risgiau Strategol yr Ymddiriedolaeth yw'r hyn y byddem yn ei ystyried yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd traddodiadol[14]. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella'r Gofrestr Risgiau Strategol, yn enwedig o ran mynegi'r ffynonellau sicrwydd yn gliriach, gan ddefnyddio model y tair llinell amddiffyn[15] (gweler **Atodiad 2 A2b 2022**). Ffynonellau gweithredol mewnol yw'r sicrwydd presennol i raddau helaeth, a fyddai'n cael eu categoreiddio fel llinellau amddiffyn cyntaf wrth ddefnyddio'r model. Mae lle hefyd i fapio a chysoni'r risgiau strategol ag amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth (fel y nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig) er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr ac yn darparu cwmpas digonol.

64 Adnewyddodd yr Ymddiriedolaeth ei risgiau strategol mewn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Mai 2023, yn dilyn lansiad ei strategaeth newydd. Cafodd y Parodrwydd i Dderbyn Risg ei adnewyddu hefyd mewn sesiwn datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023. Cyflwynir y Gofrestr Risgiau Strategol i'r Bwrdd dair gwaith y flwyddyn, ac mae'r adroddiad cryno yn nodi'n glir unrhyw newidiadau mewn rheolaethau ers y diweddariad diwethaf, yn ogystal â sgôr sicrwydd ar gyfer hyder cyflawni[16]. Neilltuir risgiau strategol i dri o'r pwyllgorau, er mwyn cynnal goruchwyliaeth a gwaith craffu ym mhob cyfarfod. Neilltuir pump o'r saith risg strategol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, sy'n rhoi baich trwm ar y pwyllgor hwn. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu dyraniad y risgiau strategol er mwyn ailgydbwyso'r llwyth gwaith (gweler **Atodiad 2 A2d**).

[14] Fel y diffinnir gan Drysorlys EF, byddem yn ystyried Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ddogfen allweddol a ddefnyddir i gofnodi ac adrodd sicrwydd, rheolaethau, risgiau, ac amcanion strategol allweddol sefydliad i'r Bwrdd.

[15] Mae'r model tair llinell amddiffyn yn galluogi ffynonellau sicrwydd i gael eu categoreiddio, gan gynyddu annibyniaeth a gwrthrychedd sicrwydd ar y drydedd lefel.

[16] Mae gan chwech o'r saith risg strategol sgôr oren, ac mae gan un risg strategol sgôr gwyrdd.

65 Mae risgiau strategol yr Ymddiriedolaeth yn eang ac yn lefel uchel eu natur, ac o ganlyniad, cyfyngedig yw'r symudiadau yn y sgôr risg. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Strategol yn llawer amlach na'r hyn a welir mewn mannau eraill. Yn nodweddiadol, mae cyrff eraill y GIG yn ystyried eu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a'u risgiau strategol ddwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, mae cyrff eraill y GIG yn ystyried eu Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn amlach na'r Ymddiriedolaeth. Er enghraifft, mae eu Byrddau yn derbyn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mhob cyfarfod, a neilltuir risgiau i'r pwyllgorau perthnasol ar gyfer goruchwylio a chraffu ym mhob cyfarfod.

66 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ailedrych ar ei Chofrestr Risgiau Corfforaethol ers adnewyddu'r risgiau strategol, ond mae hyn wedi cymryd amser oherwydd materion capasiti. Ystyriodd cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd 2023 y risgiau corfforaethol wedi'u diweddaru ond nid y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Disgwylir i hyn gael ei ystyried yng nghyfarfod mis Ionawr 2024 y Bwrdd. Yng nghyfarfodydd mis Ebrill a mis Mai 2023 yr ystyriodd y Bwrdd a'r pwyllgorau y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddiwethaf **(Argymhelliad 4)**. Yn wahanol i gyrff eraill y GIG, dirprwyir y Gofrestr Risgiau Corfforaethol i'r Tîm Arweinyddiaeth sydd o dan y Tîm Gweithredol Busnes. Yng nghyrff eraill y GIG, y Bwrdd sy'n gyfrifol am y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a'r tîm gweithredol sy'n gyfrifol am y Gofrestr Risgiau Gweithredol.

67 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i oruchwylio trefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn dda, gan dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar y cynnydd o'i gymharu â Chynllun Datblygu Rheoli Risgiau tair blynedd yr Ymddiriedolaeth. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Brotocol Risg wedi'i ddiweddaru ym mis Medi 2023, ac mae'r Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Risgiau yn bodoli, er bod y ddau ohonynt i fod i gael eu hadolygu'n ddiweddar[17]. Yn 2022, rhannodd yr Ymddiriedolaeth swyddogaeth y Prif Swyddog Risgiau yn ddwy swydd, gan greu swydd Pennaeth Rheoli Risgiau newydd. Er gwaethaf tair ymgyrch recriwtio, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gallu penodi i'r neb swydd hon. Ar adeg ein gwaith, roedd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio ennill rhywfaint o gapasiti tymor byr i helpu gyda'r materion capasiti parhaus. Disgwylir i'r polisi a'r weithdrefn gael eu diweddaru erbyn mis Mawrth 2024.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r perfformiad sefydliadol

68 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar y perfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol sydd ar waith, sy'n cael ei danategu gan swyddogaethau a chyfrifoldebau clir;

[17] Y Polisi Rheoli Risgiau—Tachwedd 2023, a'r Weithdrefn Rheoli Risgiau—Hydref 2023

- y Bwrdd a’r pwyllgorau yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar y perfformiad sefydliadol.

69 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â goruchwyliaeth gorfforaethol dda a goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd a gwaith craffu ar berfformiad da, a bod y trefniadau’n gwella’n barhaus**.

70 Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol gan yr Ymddiriedolaeth o hyd. Fel y sonnir ym **mharagraff 46**, mae’r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad yn parhau i ddatblygu yn dilyn sylwadau parhaus, ynghyd â’r Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei Dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus hefyd. Adroddir y rhain i gyd i’r Bwrdd a’r pwyllgorau perthnasol yn rheolaidd, ac maent yn parhau i ddarparu data clir, hygyrch ac ystyrlon ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar draws holl fusnes yr Ymddiriedolaeth. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen cynnwys mwy o fesurau canlyniadau yn y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad ac mae wedi nodi hyn fel cam gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer 2024–25. Mae Dangosfyrddau Sicrwydd y Gyfarwyddiaeth a Rhanbarthol wedi eu hen sefydlu ac maent yn parhau i gefnogi’r trefniadau rheoli perfformiad ar lefel weithredol.

71 Mae’r Bwrdd a’r pwyllgorau yn parhau i ddarparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth. Mae aelodau’r Bwrdd yn parhau i ddarparu her ynghylch a allai’r Ymddiriedolaeth adrodd ar berfformiad mewn mwy o feysydd er mwyn sicrhau cwmpas cynhwysfawr i gefnogi’r broses o fonitro cyflawniad ei holl flaenoriaethau strategol yn effeithiol. Mae heriau perfformiad allweddol yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyflawni rhai o’i rhaglenni sgrinio. Yn dilyn ein hadroddiad diweddar ar drefniadau adfer gwasanaethau sgrinio yr Ymddiriedolaeth, cynhaliodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella sesiwn gynorthwyedig fer yn ei gyfarfod mis Rhagfyr 2023 i fireinio’r wybodaeth am berfformiad a’r sylwebaeth ategol y mae’n eu cael mewn cysylltiad â gwasanaethau sgrinio yr Ymddiriedolaeth.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

72 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r hyn a ganlyn:

- trefniadau corfforaethol ar waith sy’n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ofynion o dan Ddeddf newydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020);
- fframwaith (neu debyg) ar waith sy’n cefnogi gwaith llywodraethu ansawdd effeithiol;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;

- y Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn darparu trosolwg effeithiol ac yn craffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

73 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau llywodraethu ansawdd priodol ar waith a'i bod wedi cymryd dull cadarn o adolygu trefniadau er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd**.

74 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r trefniadau sydd ar waith yn gadarn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020). Sefydlwyd grwpiau gweithredu ar gyfer y ddwy ddyletswydd, dan gadeiryddiaeth y cyfarwyddwyr perthnasol[18]. Mae'r grwpiau wedi rhoi'r gorau i weithredu'n ddiweddar. Mae Uwch-swyddog Cyfrifol yn parhau i fod ar waith i gynnal goruchwyliaeth weithredol. Ers mis Chwefror 2023, mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wneir ym mhob cyfarfod er mwyn ymateb i'r dyletswyddau ac unrhyw heriau cysylltiedig. Mae gan yr Ymddiriedolaeth dudalen we bwrpasol ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, ac mae aelodau a staff y Bwrdd wedi derbyn cyfarwyddiadau manwl ar y Ddeddf. Bydd y cyfrifoldeb am y Ddyletswydd Ansawdd yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Dros Dro cyn mis Mawrth 2024.

75 Mae Fframwaith Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth a gymeradwywyd yn 2021 yn parhau i fod ar waith, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei gallu i wella ansawdd drwy ei 'Hansawdd fel Strategaeth Sefydliadol'. Mae strwythurau a llinellau atebolrwydd am ansawdd, diogelwch a gwelliant yn parhau i fod yn glir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fynd i'r afael ag argymhellion ein Hadolygiad Llywodraethu Ansawdd 2022. Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo ei Fframwaith Llywodraethu Clinigol ac mae cynllun cyflawni yn cael ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Dros Dro. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn dda drwy adrodd yn rheolaidd ar reoli heintiau, Gweithio i Wella, rhybuddion diogelwch cleifion, a chydymffurfiaeth â safonau gofal iechyd. Cynhelir archwiliadau dwfn mewn meysydd sy'n peri pryder ac ar faterion sy'n cael eu huwchgyfeirio at y Bwrdd fel y bo'n berthnasol. Fel y sonnir ym **mharagraff 52**, cynhwysir sawl dangosydd ansawdd a diogelwch yn y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad sy'n cael eu hystyried yn rheolaidd yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Bwrdd.

[18] Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG (Dyletswydd Ansawdd) a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Dros Dro (Dyletswydd Gonestrwydd).

## Dull corfforaethol o olrhain argymhellion

76 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar systemau at ddibenion olrhain y cynnydd er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith er mwyn olrhain ymatebion i argymhellion archwilio ac adolygu eraill mewn modd amserol.

77 Canfuom fod **angen gwella trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer olrhain argymhellion**.

78 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi defnyddio cofnod archwilio mewnol ac allanol i fonitro'r cynnydd o'i gymharu ag argymhellion ers sawl blwyddyn, ond nid yw'r pwyllgor wedi ystyried y cofnod archwilio ers mis Mawrth 2023. Mae'r cofnod yn cael ei fonitro drwy'r Tîm Gweithredol Busnes yn chwarterol a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn. Roedd i fod i gael ei adrodd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi, ond ni ddigwyddodd hyn oherwydd nad oedd adolygiad chwarterol y Tîm Gweithredol Busnes wedi digwydd mewn pryd. Yn lle hynny, bydd yn cael ei ystyried yng nghyfarfod Ionawr 2024 y pwyllgor. Dylai pwyllgorau eraill gael y cofnod archwilio i nodi'r cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion sy'n berthnasol i'w meysydd busnes. Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill y cafodd y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol y cofnod archwilio ddiwethaf, fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi derbyn cofnod archwilio y flwyddyn ariannol hon, er bod sawl argymhelliad sy'n ymwneud â llywodraethu ansawdd **(Argymhelliad 5)**.

79 Y llynedd, gwnaethom adrodd nad oedd yr argymhellion a gododd o'n harchwiliad o gyfrifon 2021–22 wedi eu cynnwys ar y cofnod archwilio. Cafodd y rhain eu cynnwys yn y cofnod archwilio yn ddiweddarach ac fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mawrth 2023 (gweler **Atodiad 2 A5 2022**). Gwnaeth ein harchwiliad o gyfrifon 2022–23 bedwar argymhelliad[19], ac ail argymhelliad a wnaed yn wreiddiol y flwyddyn flaenorol oedd un ohonynt. Nid oedd y cofnod archwilio diweddaraf ar gael i'w adolygu felly nid oeddem yn gallu asesu a oedd yr argymhellion newydd hyn wedi eu cynnwys ar y cofnod archwilio. Yn ddiweddar, mae'r Tîm Gweithredol Busnes wedi cynnal archwiliad dwfn i gamau gweithredu rhagorol ar y cofnod archwilio. Ystyriwyd un o'n hargymhellion archwilio cyfrifon ar gyfer 2022–23 a thri o'n hargymhellion asesu strwythuredig ar gyfer 2022. Rydym yn tybio bod yr Ymddiriedolaeth yn ystyried yr archwiliadau o gyfrifon

[19] Roedd argymhellion yn canolbwyntio ar drefniadau cyfrif y stoc ar ddiwedd y flwyddyn, datganiadau o buddiant, gweinyddu a llywodraethu adnoddau dynol, a bodolaeth camgymeriadau dosbarthu.

sy'n weddill fel rhai sydd wedi eu cwblhau[20], er na ddarparwyd sicrwydd o hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Ystyriodd y Tîm Gweithredol Busnes gyfanswm o 38 o argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Cymeradwywyd estyniadau i ddyddiadau gweithredu ychydig yn llai na hanner y rhain. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol oruchwylio'r rhesymau dros estyn dyddiadau gweithredu.

80 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gofnod canolog o hyd i olrhain y cynnydd o'i gymharu ag argymhellion archwilio clinigol, a adroddir pob chwe mis i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Mae hyn yn parhau i fod ar waith ond mae'n parhau i fod yn broses a wneir â llaw. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth broses ar gyfer olrhain argymhellion o adolygiadau eraill yn ganolog, megis adolygiadau achredu. Cynhelir yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn y cyfarwyddiaethau perthnasol **(Argymhelliad 6)**. Mae sawl corff arall yn y GIG sy'n defnyddio AMaT[21] i olrhain argymhellion adolygu. Efallai y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dymuno ystyried hyn fel dewis.

# Dull cynllunio corfforaethol

81 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o lunio strategaethau a chynlluniau corfforaethol ac o oruchwylio'r broses o'u cyflawni.

82 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o ddatblygu a monitro'r broses o gyflawni ei strategaethau a'i chynlluniau, a bod strategaeth hirdymor newydd ar waith a dull cryfach ddangos yr effaith**.

## Dull corfforaethol o lunio strategaethau a chynlluniau

83 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o lunio, goruchwylio, a chraffu ar y broses o ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sydd wedi eu gwreiddio yn iechyd y boblogaeth, ac wedi eu llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;

[20] Cafodd ymateb y rheolwyr i'n hadroddiad asesu strwythuredig 2022 ei ystyried am y tro cyntaf yng nghyfarfod mis Medi y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Nododd ymateb y rheolwyr fod sawl argymhelliad a oedd wedi eu cwblhau.

[21] Offeryn rheoli ac olrhain archwiliadau, sy'n defnyddio dangosfyrddau i roi deallusrwydd, ac sy'n galluogi staff i ddiweddaru'r cynnydd mewn amser real gan leihau'r baich ar dimau llywodraethu gan ei fod yn awtomeiddio llawer o'r prosesau, megis gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd, yw AMaT.

- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau corfforaethol eraill cyn eu cymeradwyo.

84 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth hirdymor newydd. Mae ganddi drefniadau cadarn ar gyfer datblygu ei strategaethau a'i gynlluniau, gydag ymgysylltiad da â'r Bwrdd**.

85 Cymeradwyodd y Bwrdd ei strategaeth 12 mlynedd newydd 'Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru iachach—Ein strategaeth hirdymor 2023–2035' ym mis Mawrth 2023. Roedd hyn yn dilyn gweithdai'r Bwrdd, ymgysylltu mewnol ac allanol sylweddol, ac adolygiad o dystiolaeth a ddechreuodd yn 2021–22. Mae'r strategaeth wedi ei gwreiddio mewn iechyd cyhoeddus ac mae'n gosod yr weledigaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth ynghylch chwe blaenoriaeth strategol. Wrth ddatblygu ei strategaeth newydd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi integreiddio ei dyletswydd statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac wedi datblygu ei hamcanion drwy lens y Ddeddf. O'r herwydd, blaenoriaethau strategol newydd yr Ymddiriedolaeth yw ei hamcanion llesiant hefyd.

86 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi datblygu Strategaeth Digidol a Data 12 mlynedd, Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso tair blynedd, ac mae wedi adnewyddu ei Strategaeth Iechyd Rhyngwladol 10 mlynedd. Mae aelodau'r Bwrdd wedi bod yn ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r strategaethau hyn drwy'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesedd, a darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn rheolaidd drwy Adroddiad Cyfansawdd y Cadeiryddion. Neilltuwyd y dasg o gymeradwyo'r strategaethau hyn ar gyfer y Bwrdd.

87 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn o hyd ar gyfer datblygu a llunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Yng nghyd-destun ei strategaeth newydd, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Hydref 2022 gan gyhoeddi ei chanllawiau mewnol ei hun. Mae'r cynllun yn parhau i gael ei ddatblygu drwy weithio'n agos gydag aelodau o'r timau Cyllid a Datblygu Pobl a Sefydliadol a chyfarwyddwyr arweiniol, ac mae Tîm Gweithredol Busnes yn cynnal goruchwyliaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd gwirio rheolaidd gydag arweinwyr cynllunio cyfarwyddiaeth ynghyd ag arweinwyr perthnasol yn y swyddogaethau corfforaethol. Roedd y Bwrdd yn ymwneud yn llawn â'r broses o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy sesiynau cyfarwyddo, gyda chymeradwyaeth ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Cyflwynwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol a chafodd gymeradwyaeth y Gweinidog ym mis Mai 2023. Mae'r dull o ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 wedi ei rannu ag aelodau'r Bwrdd yn ddiweddar (gweler **Atodiad 2 A1 2022**).

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau

88 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio ac o graffu ar y broses o weithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig[22], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo gwaith monitro ac adrodd;
- y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflawniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

89 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar gyflawni ei chynlluniau a'i bod wedi cryfhau ei dull o ddangos effaith**.

90 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o fesur a dangos effaith ei Chynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi 27 amcan i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r chwe blaenoriaeth strategol. Mae gan bob un o'r amcanion gyflawniadau clir a cherrig milltir. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn cynnwys canlyniadau clir sydd wedi eu cyfochri'n agos â'r amcanion, gan nodi'r mesur gwaelodlin a'r ffynhonnell lle gellir mesur canlyniadau dros oes y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

91 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer monitro'r broses o gyflawni ei Chynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Tîm Gweithredol Busnes yn gyfrifol am gyflawni'r amcanion, ac mae pob un o'r meysydd blaenoriaeth wedi eu neilltuo i arweinydd gweithredol. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn monitro ac yn craffu ar y broses o'u cyflawni. Mae'r cynnydd o'i gymharu â cherrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau i gael ei adrodd bob mis i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol Busnes drwy'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad. Mae'r Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad hefyd yn nodi cynnydd lefel uchel hyd yn hyn a risgiau i gyflawni. Defnyddir Dangosfyrddau Sicrwydd y Gyfarwyddiaeth a Rhanbarthol hefyd i fonitro'r oruchwyliaeth ar lefel weithredol. Mae'r trefniadau hyn yn rhoi mewnwelediad clir i'r broses o gyflawni cerrig milltir ac maent yn galluogi'r Bwrdd i olrhain y cynnydd. Yn ehangach, mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da o hyd i fonitro cynlluniau a strategaethau eraill drwy bwyllgorau perthnasol.

[22] Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amser-gyfyngedig—defnyddir yr acronym SMART ar gyfer hyn yn y Saesneg.

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

92 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol.

93 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o reoli ei hadnoddau ariannol yn gyffredinol**.

## Amcanion ariannol

94 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei hamcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r Ymddiriedolaeth yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- cyflawni ei hamcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022–23, a'r cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2020–21 a 2022–23; a
- bod ar y trywydd iawn i gyflawni ei hamcanion a'i dyletswyddau yn 2023–24.

95 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswyddau ariannol yn 2022–23 a'i bod ar y trywydd iawn i'w cyflawni nhw eto yn 2023–24**.

96 Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol o fantoli ei chyfrifol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23, gyda refeniw bach gwarged cyfalaf o £85,000 a £35,000, yn y drefn honno. Bodlonodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar gyfer cyfnod treigl tair blynedd 2020–23 hefyd, gyda gwarged cronnus o £260,000. Yn 2022–23, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth arbedion arfaethedig o £1.091 miliwn o ganlyniad i arbedion i wariant nad yw'n gyflog. Hefyd, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth darged GIG Cymru o dalu 95% o'r contractau nad ydynt yn rhai GIG o fewn 30 niwrnod.

97 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld, ac ar y trywydd iawn i fantoli'r gyllideb eto ar ddiwedd 2023–24 ac ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd 2021–24. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun arbed ar waith sy'n werth cyfanswm o £3.174 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld y bydd gwarged o £120,000 yn deillio o danwariant. Hefyd, nododd yr Ymddiriedolaeth arbedion ychwanegol yn werth cyfanswm o £4.222 miliwn yn rhan o'i chyfraniad i helpu i leddfu pwysau ariannol ar draws GIG Cymru.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

98 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn sydd ar waith;
- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau ariannol cyn eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac sydd wedi eu costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid y gwasanaeth;

- y Bwrdd yn craffu'n briodol ar gynlluniau gwellau costau ac arbedion cyn eu cymeradwyo.

99 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth ddull cynllunio ariannol da**.

100 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun ariannol clir a chytbwys ar gyfer 2023–2026 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Mae'r cynllun ariannol yn tanategu Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth ac mae'n nodi egwyddorion a swyddogaethau a chyfrifoldebau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn glir. Adolygir y cynllun ariannol yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfoes.

101 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi nodi ei dull arbedion yn glir, a gynhwysir yn y cynllun ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymhwyso gofyniad arbedion o 2.5% sy'n cynnwys gofyniad arbedion cylchol o 1% ar gyfer pob cyfarwyddiaeth, sawl cynllun arbed corfforaethol a lleihau costau, a pheth gostyngiad arfaethedig mewn gwariant. Defnyddir arbedion i wrthbwyso rhywfaint o bwysau cost yr Ymddiriedolaeth, a defnyddir y gweddill i gynhyrchu cronfa buddsoddi mewnol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar waith i flaenoriaethu'r modd y defnyddir y gronfa fuddsoddi, gan sicrhau bod y gwariant yn gyson â'i blaenoriaethau strategol a'i meysydd risg uchel.

102 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud sylwadau eraill ar ddull yr Ymddiriedolaeth o nodi, cyflawni a monitro arbedion ariannol mewn darn o waith ar wahân y byddwn yn ei adrodd yn gynnar yn 2024.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

103 Gwnaethom ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall sbardunau cost a sut maent yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion strategol; ac
- a gafodd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2022–23 eu cyflwyno'n brydlon, heb gynnwys camddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

104 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â rheolaethau a rheolaeth ariannol dda ar waith, ac y cynhelir goruchwyliaeth briodol drwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**.

105 Mae gan yr Ymddiriedolaeth brosesau cadarn ar waith o hyd i sicrhau cydymffurfiaeth ag offerynnau statudol, ac i adrodd a herio toriadau. Fel y sonnir

ym **mharagraff 31**, mae’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo wedi eu hadolygu a’u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn craffu ar nifer y camau gweithredu tendr sengl, y colledion a’r taliadau arbennig yn rheolaidd.

106 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â rheolaethau da ar waith i reoli ei chyllid a chynnal goruchwyliaeth o’r sefyllfa ariannol ar lefel gyfarwyddiaeth. Mae’r cynllun ariannol yn nodi’n glir iawn dybiaethau cyllido, pwysau cost a dyraniadau cyllideb y gyfarwyddiaeth. Cytunir ar gyllidebau gyda phob cyfarwyddiaeth ar ddechrau’r flwyddyn, ac mae’r trefniadau’n parhau i gynnwys cyfarfodydd adolygu ariannol chwarterol gyda phob cyfarwyddiaeth. Mae Archwilio Mewnol wedi rhoi sicrwydd sylweddol ar nifer o drefniadau ariannol yr Ymddiriedolaeth[23]. Fodd bynnag, cyfyngedig oedd y sicrwydd a roddodd Archwilio Mewnol ar reolaeth yr Ymddiriedolaeth o grantiau iechyd y boblogaeth, a reolir gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant, er bod y weinyddiaeth a’r gweithdrefnau ariannol cysylltiedig wedi cael sicrwydd rhesymol.

107 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiadau ariannol drafft o ansawdd da yn unol â’r amserlenni gofynnol, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a’r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023. Nododd ein harchwiliad un camddatganiad perthnasol a gafodd ei gywiro, ond ni chafodd unrhyw effaith ar y llinell isaf. Gwnaeth ein harchwiliad nifer o argymhellion hefyd ynghylch dull yr Ymddiriedolaeth o baratoi ei chyfrifon (gweler **paragraff 79**). Gwnaethom gyhoeddi barn ddiamod mewn cysylltiad â gwirionedd a thegwch y cyfrifon, a barn rheoleiddio diamod.

## Goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar y perfformiad ariannol

108 Gwnaethom ystyried a yw’r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu’n briodol ar y perfformiad ariannol. Roeddem yn chwilio’n benodol am dystiolaeth o’r hyn a ganlyn:

- y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar y perfformiad ariannol, yn ogystal â’r heriau ariannol allweddol, risgiau, a chamau lliniaru;
- y Bwrdd yn craffu’n briodol ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad.

109 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â threfniadau da ar gyfer monitro ac adrodd ar ei sefyllfa ariannol**.

110 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i lunio adroddiadau ariannol cynhwysfawr. Cyflwynir Adroddiad Sefyllfa Ariannol manwl ym mhob cyfarfod Bwrdd, a chynhelir gwaith craffu a her yn dda. Mae’r adroddiad yn parhau i nodi trosolwg clir o’r refeniw, y sefyllfa a ragwelir, y gwariant cyfalaf, a’r anfonebau nad ydynt yn anfonebau’r GIG sy’n cael eu talu. Cynhwysir perfformiad ariannol yn y

[23] Sicrwydd sylweddol ar drefniadau rheoli ariannol, a sicrwydd sylweddol ar broses hawlio Cronfa Risg Cymru.

Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad hefyd a cheir crynodeb o hyn yn yr Adroddiad Perfformiad a Mewnwelediad. Fodd bynnag, fel y sonnir ym **mharagraff 46,** mae sefyllfa ariannol Mis 12 yn parhau i gael ei dosbarthu i aelodau'r Bwrdd y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd, ac nid yw hyn ar gael yn gyhoeddus.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosiad 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol;<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth;<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella;<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiant, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd;<br>• Y Prif Weithredwr;<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd;<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Dirprwy Brif Weithredwr, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, a'r Pennaeth Strategaeth, Cynllunio a Materion Corfforaethol;<br>• Y Cyfarwyddwr Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Dros Dro, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig;<br>• Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesedd. |

# Atodiad 2

## Y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol

**Mae Arddangosiad 3** isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythur blaenorol

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Disgrifio'r broses cynllunio strategol**<br>A1 Gwnaethom nodi cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth fynegi'r broses o ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig i'r Bwrdd yn fwy eglur. Dylai'r Ymddiriedolaeth rannu ei phroses o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig er mwyn derbyn her gan y Bwrdd, ac fel y gall y Bwrdd graffu arni, a thrafod ar ba gam o'r broses y dylai'r Bwrdd ymgysylltu â'r fersiynau drafft. | Cwblhawyd—gweler **paragraff 87** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Gwella systemau sicrwydd**<br>A2 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Sicrwydd Bwrdd cynhwysfawr ar hyn o bryd mae sawl bwlch yn ffynonellau sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Yn rhan o'r adolygiad o'i strategaeth hirdymor, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd clir. Dylai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:<br>a) fynd i'r afael â'r bylchau presennol drwy gynnwys sicrwydd sy'n ymwneud â dull yr Ymddiriedolaeth o alluogi gwell iechyd y boblogaeth drwy fesurau ataliol a chynaliadwy, gweithio mewn partneriaeth, ac ystadau ac asedau ffisegol eraill;<br>b) cynnwys yr holl reolaethau a ffynonellau sicrwydd perthnasol ar gyfer y Bwrdd a'r pwyllgorau;<br>c) gael ei adolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd; a<br>d) gael ei ddefnyddio i hysbysu cynlluniau gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau. | Cwblhawyd—mae'r Ymddiriedolaeth wedi ailedrych ar ei meysydd sicrwydd ac wedi cytuno bod y meysydd hyn yn cael eu cwmpasu drwy'r trefniadau presennol<br><br>Ar y gweill—gweler **paragraff 63**<br><br>Cwblhawyd—gweler **paragraff 62**<br>Ar y gweill—gweler **paragraff 64** |
| A3 Mae dyblygu yn y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesedd mewn cysylltiad â llywodraethu a diogelwch gwybodaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried pa un yw'r pwyllgor mwyaf priodol i oruchwylio llywodraethu a diogelwch gwybodaeth a diweddaru'r cylch gorchwyl yn unol â hynny. Dylai'r Ymddiriedolaeth cynnwys llwyth gwaith trwm y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ei hystyriaethau. Yn ehangach, mae adolygiad yr Ymddiriedolaeth o'i strategaeth hirdymor yn cynnig cyfleoedd i adolygu strwythur presennol y pwyllgor i sicrhau bod llwythi gwaith yn gytbwys. | Cwblhawyd—gweler **paragraff 36** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| A4 Mae cyfleoedd i gynnwys sylwadau gan staff a defnyddwyr yn fwy rheolaidd mewn cyfarfodydd pwyllgor, gan gorffori sylwadau gan ddefnyddwyr ehangach gwasanaethau yr Ymddiriedolaeth, megis y GIG a chyrff llywodraeth lleol. Wrth ddatblygu ei dull o geisio sylwadau, ac o roi sicrwydd ar hyn, dylai'r Ymddiriedolaeth ymgorffori cipio persbectif ehangach ar safbwyntiau ynghylch sut y derbynnir ei gwasanaethau. | Ar y gweill—gweler **paragraff 52** |
| **Gwella'r broses o oruchwylio'r cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio**<br>A5 Nid yw'r cofnod archwilio yn cynnwys yr argymhellion a ddeilliodd o'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021–22. Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddaru ei chofnod archwilio yn unol â hynny er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn gallu goruchwylio'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. | Cwblhawyd—gweler **paragraff 79** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Gwella tryloywder busnes Bwrdd a phwyllgorau** | |
| A6 Gwnaethom nodi cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth wella ei gweinyddiaeth o fusnes Bwrdd a'r pwyllgorau. Dylai'r ymddiriedolaeth: | |
| a) sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol, polisi, ariannol a llywodraethu allweddol yn cael eu diweddaru a'u cyhoeddi ar ei gwefan mewn modd amserol; | Cwblhawyd—gweler **paragraffau 31–33** |
| b) sicrhau bod trefniadau ar waith i'w nodi'n gyhoeddus pan nad yw eitemau a nodir yng nghynlluniau gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau wedi eu hystyried; | Cwblhawyd—gweler **paragraffau 27 a 37** |
| c) sicrhau bod taflenni clawr yn cael eu defnyddio ar gyfer holl bapurau y Bwrdd a'r pwyllgorau i grynhoi materion allweddol ac egluro'r hyn y gofynnir i aelodau'r Bwrdd ei wneud; a | Ar y gweill—gweler **paragraffau 43 a 45** |
| d) sicrhau bod y sesiynau cyfarwyddo a ddarperir y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd yn cael eu rhoi yn y parth cyhoeddus. | Ar y gweill—gweler **paragraff 46** |
| **Gwella goruchwyliaeth ar y broses o reoli asedau** | |
| A7 Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi nodi ei dull strategol o reoli ei hadeiladau (y rhai y mae'n berchen arnynt a'r rhai y mae'n eu lesio) nac asedau ffisegol eraill. Yn rhan o adolygiad hirdymor y strategaeth, dylai'r Ymddiriedolaeth nodi ei dull strategol o sicrhau bod ei hadeiladau a'i hasedau'n cefnogi'r broses o gyflawni ei blaenoriaethau strategol, gan gynyddu'r effeithlonrwydd gymaint â phosibl, a'u defnyddio'n effeithiol. | Ar y gweill—bydd yr Ymddiriedolaeth yn crynhoi'r holl ystyriaethau ystadau ac asedau sy'n rhan o strategaeth y gyllideb, y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r wybodaeth ddiweddaraf ar ystadau, yn un cynllun Cyfalaf ac Asedau strategol, er mwyn cefnogi proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024–2027 |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb yr Ymddiriedaeth i'n hargymhellion archwilio**

| **Argymhelliad** | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**<br>A1 Yn unol â holl gyrff eraill y GIG yng Nghymru, dylai'r Ymddiriedolaeth wneud ei Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn gyfarfod cyhoeddus er mwyn gwella tryloywder, gan neilltuo materion o natur sensitif yn unig ar gyfer cyfarfod preifat. Wrth wneud hynny, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod papurau'r pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar ei gwefan saith niwrnod cyn y cyfarfodydd. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac (yn weithredol o'r flwyddyn ariannol newydd) bydd yn cynnal sesiynau cyhoeddus a phreifat ei Phwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, gan gyhoeddi'r agenda a'r papurau (fel y bo'n briodol) ar ein gwefan saith niwrnod ymlaen llaw. | Mai 2024 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Trefnu cyfarfodydd pwyllgor**<br>A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth wella trefniadau ei holl gyfarfodydd pwyllgor er mwyn sicrhau llif gwybodaeth mwy prydlon i'r Bwrdd, ac o'r Bwrdd, er mwyn lleihau'r angen am sicrwydd llafar i'r Bwrdd, a darparu rhagor o gysondeb pan fo pwyllgorau'n derbyn adroddiadau chwarterol a chwemisol. Hefyd, dylid ystyried cyfarfodydd ychwanegol byr i gwmpasu eitemau penodol ar yr agenda. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu bod trefniadau presennol ei chyfarfodydd yn cefnogi gwaith llywodraethu effeithiol. Yn 2023, cynhaliwyd cyfarfodydd mater sengl ychwanegol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ogystal â'r Bwrdd llawn, yn ôl yr angen.<br>Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei hadroddiadau i Bwyllgorau er mwyn gwella cysondeb ac osgoi cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, bydd adroddiad y Cyd-gadeiryddion ar gyfer y Bwrdd yn cynnwys crynodeb o'r cofnodion drafft ar gyfer y cyfarfodydd sy'n rhy agos at gyfarfod y Bwrdd i'r cofnodion gael eu cadarnhau. Bydd y cofnodion cryno yn cael eu cyflwyno gan gadeirydd perthnasol y pwyllgor yn y Bwrdd. | Mai 2024 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| **Argymhelliad** | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Datblygiad Cyfarwyddwyr Anweithredol**<br>A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth ddod â'r holl Gyfarwyddwyr Anweithredol ynghyd o yn gyfnodol er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn yr argymhelliad hwn a bydd yn rhoi dulliau ar waith fel y gall cyfarwyddwyr Anweithredol rannu profiadau a dysgu. Bydd hyn yn cael ei gorffori yn adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau a bydd cyfarfodydd chwemisol yn cael eu hwyluso. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol iawn o gynllun llywodraethu y Bwrdd Unedol a bydd yn sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei weithredu'n briodol. | Ebrill 2024 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Adrodd risgiau corfforaethol**<br>A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi'i diweddaru cyn gynted â phosibl, a bod cynlluniau gwaith yn sicrhau yr ystyrir y gofrestr yn fwy rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. | Bydd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd llawn ym mis Ionawr 2024.<br>Byddwn yn cynyddu amlder yr adroddiadau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gan eu darparu fesul chwarter ar gyfer Pwyllgorau, ac yn chwemisol ar gyfer y Bwrdd. Bydd y cynlluniau gwaith ar gyfer 2024–25 yn adlewyrchu hyn a bydd y Protocol Risg yn cael ei ddiweddaru. | Ebrill 2024 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| **Olrhain gwaith archwilio ac adolygu**<br>A5 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei phwyllgorau'n goruchwylio'r cynnydd yn rheolaidd o'i gymharu â'r argymhellion archwilio mewnol ac allanol sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgorau yn eu cynlluniau gwaith. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod pob pwyllgor yn goruchwylio'r cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion archwilio mewnol ac allanol, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn goruchwylio'r holl argymhellion, fesul chwarter.<br>Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn adolygu ac yn diweddaru ei Phrotocol Archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r weithred hon. | Ebrill 2024 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A6 Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cofnod canolog o argymhellion sy'n deillio o adolygiadau eraill, fel y gellir goruchwylio'r cynnydd corfforaethol. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu cwmpas a graddfa'r adolygiadau perthnasol eraill a bydd yn ystyried a yw cofnod canolog yn briodol. | Ebrill 2024 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan https://www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.